# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-30-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 14 Tachwedd 2006
### Amser y Cyfarfod: 9:30am
### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Janice Gregory | Ogwr |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| Hasera Khan | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am Absenoldeb: Jeff Cuthbert, Gwyn Griffiths

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-29-2006

2.1. Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2006.

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1. Gan nad oedd unrhyw eitemau i'w hadrodd, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ymlaen i drafod deddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

4.1 Mewn perthynas â'r Offerynnau Statudol canlynol cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

LC1347 – The Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales) (Amendment) Regulations 2006

LC1371 – Rheoliadau Dyrannu Tai (Cymru) (Diwygio) 2006

LC1372 – Rheoliadau Digartrefedd (Cymru) 2006

LC1393 – The Curd Cheese (Restriction on Placing on the Market) (Wales) Regulations 2006

LC1395 – Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2006

LC1396 – Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2006

LC1398 – Rheoliadau'r Cynllun Cychwyn Iach (Disgrifio Bwyd Cychwyn Iach) (Cymru) 2006

## Eitem 5: Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Deddfau: Crynodeb o Waith 2005-2006

5.1. Dywedodd y Cadeirydd fod Adroddiad Blynyddol Drafft y Pwyllgor Deddfau wedi'i ddosbarthu a gwahoddodd yr aelodau i'w gymeradwyo. Dywedodd fod yr Adroddiad yn adlewyrchu gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn llawn ac yn gynhwysfawr. Dangosodd yr Adroddiad fod gwaith y Pwyllgor yn ystod y cyfnod dan sylw wedi bod yn hynod gynhyrchiol.

5.2. Cymeradwyodd yr Aelodau'r Adroddiad gan ddiolch i dîm gweinyddol y Pwyllgor a'r

Cynghorwyr Cyfreithiol am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Rhoddwyd cyfarwyddyd i’r tîm gweinyddol fynd ati i gyhoeddi’r Adroddiad. Cam i’w gymryd: Clerc

## Camau i’w cymryd:

5.2. Rhoddwyd cyfarwyddyd i dîm gweinyddol y Pwyllgor fynd ati i gyhoeddi’r Adroddiad Blynyddol. Cam i’w gymryd: Clerc

## Eitem 6: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

6.1. Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 21 Tachwedd 2006.